

## Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

12:00, 8 Gorffennaf 2021

### Yn bresennol:

Jayne Bryant AS	Cath Washbrook
Josh James	Joel James AS
Dai Williams	Peredur Owen Griffiths AS
Dr Altaf Hussain AS	Brody Anderson
Samuel Kurtz AS	Wendy Gane MBE
Corinna Bretland	Helen Boggis (ar ran Vikki Howells AS)
Jon Matthias	David Thomas
Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS)	Chris Cottrell
Mark Isherwood AS	Heledd Roberts (ar ran Rhun ap Iwerth AS)
Dr Julia Platts	
Dr Lee Gonzalez	

JJ Agorodd y cyfarfod a diolchodd i bawb am ddod. Rhoddodd drosolwg byr o ddiabetes yng Nghymru. Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o ddiabetes yn y DU. Yn 2020, cafwyd 10,695 diagnosis ychwanegol sy'n golygu bod 209,015 erbyn hyn - tua 8 y cant o'r boblogaeth dros 17 oed. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 65,501 o bobl eraill â diabetes math 2 nad ydynt wedi cael diagnosis eto, yn ogystal â 580,000 o bobl eraill sydd â risg uchel o ddatblygu math 2. O ganlyniad i hyn, diabetes yw un o'r argyfyngau iechyd cyflymaf sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Mae'n costio tua £500 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru, tua 10 y cant o'i gyllideb, ac mae 80 y cant ohono'n cael ei wario ar gymhlethdodau y gellir eu hosgoi.

JJ Symudodd i'r eitem gyntaf ar yr agenda, sef sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol. Nodwyd ymgysylltiad effeithiol yn y Bumed Senedd ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn parhau. Agorwyd y llawr i'r rhai a oedd am ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol.

### Aelodau o'r Senedd

- Jayne Bryant AS
- Dr Altaf Hussain AS
- Samuel Kurtz AS
- Peredur Owen Griffiths AS
- Joel James AS
- Mark Isherwood AS
- Vikki Howells AS

*Nodwyd bod Aelodau eraill wedi e-bostio gyda'r bwriad o ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol, a diolchodd i aelodau staff swyddfa a oedd yma yn cynrychioli'r rhai*

*nad oeddent yn gallu dod i'r cyfarfod ond a oedd yn awyddus i ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol.*

Aelodau arbenigol

- Wendy Gane MBE
- Jon Matthias
- Dr Julia Platts
- Chris Cottrell
- Joshua James
- Dr Rose Stewart
- Sujatha Thaladi
- David Thomas

JJ Cylch gorchwyl arfaethedig y grŵp.

*Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar y cylch gorchwyl.*

Agorodd enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol. Enwebwyd Jayne Bryant AS gan Samuel Kurtz AS ac eiliwyd gan Dr Altaf Hussain AS.

*Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd Jayne Bryant AS i Gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol.*

JB Diolchodd i bawb, gan gynnwys yr Aelodau sy'n dychwelyd ac Aelodau newydd. Nododd ein bod yn edrych ymlaen yn fawr at weithio'n drawsbleidiol i gefnogi pobl â diabetes yng Nghymru.

Os na allwch ddod i gyfarfod yn y dyfodol, cofiwch anfon aelod o staff.

Symudwyd i ethol ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol.

Enwebwyd Josh James ar ran Diabetes UK Cymru i rôl yr ysgrifenyddiaeth ac eiliwyd gan Altaf Hussain AS.

*Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd Josh James yn Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol.*

JJ Cyflwynodd Dr Rose Stewart i siarad am iechyd meddwl a gwneud yr achos dros Seicoleg Diabetes.

RS Ers siarad ddiwethaf yn y Grŵp Trawsbleidiol mae adran seicoleg diabetes wedi'i sefydlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr erbyn hyn ac mae'n Gadeirydd rhwydwaith seicoleg diabetes y DU.

Y rheswm pam mae gennym seicoleg diabetes yw oherwydd bod diabetes yn gyflwr mor heriol i fyw ag ef. Mae rheoli diabetes fel curo'ch calon eich hun. Mae'n creu baich seicolegol enfawr. Nodwyd llawer o hyn yn adroddiad "Too often missing" Diabetes UK Cymru yn 2019. Mae 75 y cant o bobl â diabetes yn teimlo fel na allant gael gafael ar y gefnogaeth gywir. Mae hyn oherwydd bod seicoleg diabetes yn brin. Mae pryder ac iselder 50 y cant yn fwy cyffredin ymhlith pobl â diabetes, mae bwriad hunanladdol deirgwaith yn uwch, ac mae pobl ifanc sydd â'r cyflwr deirgwaith yn fwy tebygol o ddatblygu anhwylderau bwyta.

Mae llawer iawn o ymchwil wedi'i wneud i ddangos bod iechyd seicolegol sy'n gwaethgu yn cyfateb i waethgu rheolaeth diabetes, mae hyn yn dod yn gylchol gyda'r naill yn arwain at y llall.

Ar hyn o bryd, ar wahân i'r gwasanaeth unigryw yn Betsi Cadwaladr mae 1 swydd cyfwerth ag amser llawn yn Hywel Dda a dim seicoleg diabetes oedolion arall ledled y wlad. Ni allwn anfon pobl at wasanaethau iechyd meddwl cyffredinol i oedolion oherwydd bod y cyflyrau a'r materion yn benodol i ddiabetes, ac nad ydynt wedi'u cynnwys mewn hyfforddiant generig. Mae'r rhain yn cynnwys; trallod diabetes, gorflinder o ran diabetes, anhwylderau bwyta math 1, ofn hypos, ffobia o ran nodwyddau, ailadrodd DKA, ymwrthedd seicolegol i inswlin ac ymdopi â chymhlethdodau. Mae anfon pobl i wasanaethau generig yn arwain at ganlyniadau anfodhaol.

Mae seicoleg diabetes yn ofal iechyd darbodus ar waith, mae'n lleihau morbidrwydd, yn sicrhau bywyd hirach, straen is, ac yn cymryd pwysau oddi ar y GIG. Mae 80 y cant o gyllideb y GIG yn cael ei wario ar gymhlethdodau diabetes y gellir eu hatal. Lle mae gan rywun â diabetes Math 2 iechyd meddwl gwael, mae eu costau GIG yn cynyddu 50 y cant, ac mae hwn yn arian y gellid fod wedi'i arbed.

Gall seicoleg diabetes i oedolion hefyd gefnogi oedolion ifanc sy'n aml yn gweld eu rheolaeth diabetes yn mynd ar gyfeiliorn rhywfaint. Mae cefnogi oedolion ifanc i reoli eu cyflwr drwy'r blynyddoedd yn eu harddegau yn cyfateb i fywyd gwell yn y dyfodol.

Mae seicoleg diabetes i oedolion yn lleihau cyfraddau derbyniadau mewn perthynas â DKA. Mae pob achos o dderbyn rhywun i'r ysbyty mewn perthynas â DKA yn costio £2045 ar gyfartaledd. Mae cysylltiad cryf rhwng DKA a thrallod seicolegol ac mae'n fwyaf cyffredin ymhlith oedolion ifanc. Yn Betsi Cadwaladr, dangosodd y cynllun peilot y gallem leihau cyfradd DKA ymhlith oedolion ifanc 40 y cant gyda seicoleg diabetes.

Gwnaethom gyfrifo y gallem gyflawni arbedion net i'r GIG o rhwng £714,696 a £1,151,660 erbyn diwedd blwyddyn 5 gyda gwasanaeth seicoleg diabetes i oedolion gyda thri seicolegydd clinigol cyfwerth ag amser llawn.

Fodd bynnag, mae problemau yn y gweithlu. Mae angen mwy o seicolegwyr clinigol arnom yng Nghymru, gan fod oedi enfawr o ran hyfforddiant. Mae cyfradd swyddi gwag o 30 y cant mewn swyddi seicoleg. Rydym yn hyfforddi 30 o seicolegwyr clinigol y flwyddyn yng Nghymru, yr isaf o unrhyw genedl ddatganoledig. Mae dros 300 o geisiadau am ddeg lle mewn hyfforddiant. Mae Lloegr yn cynyddu ei lleoedd hyfforddi DClinPsy gan 60 y cant dros y tair blynedd nesaf, nid yw hyn yn wir am Gymru. Nid oes gennym broses gomisiynu ganolog ar gyfer arweinwyr seicoleg.

Bydd buddsoddi mewn seicoleg diabetes i oedolion yn arbed symiau enfawr o arian yn ogystal â gwneud gwelliannau enfawr i ansawdd bywyd. Nid yw'r system IAPT yn Lloegr yn effeithiol wrth ymdrin â hyn.

- JB Diolchodd i RS am y cyflwyniad ac estynnodd longyfarchiadau i RS ar y gwasanaeth a'r rôl newydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Agorwyd i gwestiynau.
- SK A yw'r seicolegwyr clinigol hyn yn arbenigwyr mewn diabetes, neu gydag ystod o sgiliau? O ran arbenigo, a all hynny ei gwneud yn fwy anodd recriwtio?
- RS Ie a na. Fel seicolegwyr clinigol rydym wedi ein hyfforddi ym mhob maes iechyd meddwl. Mae gennym radd israddedig yna dwy flynedd o brofiad yn gweithio ym

maes iechyd meddwl, yna tair blynedd ar ddoethuriaeth. Yng Nghymru mae dau le y gallwch wneud hyn - Caerdydd a Bangor. Ar y ddoethuriaeth gallwch ddechrau arbenigo mewn gwahanol feysydd seicoleg glinigol. Rydym yn tueddu i weld bod gennym bobl yn gweithio mewn pob math o wahanol ffyrdd, ond mewn seicoleg iechyd corfforol, mae'n hanfodol cael clinigwyr wedi'u hymgorffori mewn timau. Y perygl yw darparu gwasanaethau seicoleg cyffredinol sy'n golygu bod yn rhaid iddynt dderbyn atgyfeiriadau o ddiabetes, i ddermatoleg, i anhwylderau gwaed prin, i ganser. Mae hyn yn golygu nad yw clinigwyr yn aml yn barod i gefnogi unigolion gan nad oes ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'u cyflwr iechyd a all fod yn beryglus iawn.

Yr anhawster a gawn wrth recriwtio yw diffyg arbenigedd. Mae arbenigo mewn diabetes er enghraifft yn gyfle eithaf deniadol mewn gwirionedd. Y broblem yn syml yw nad oes seicolegwyr clinigol ar gael. Mae gwir angen i ni hyfforddi mwy yng Nghymru.

WG Rwy'n bryderus iawn ynghylch y diffyg brwdfrydedd gan fyrrdau iechyd i ariannu'r swyddi hyn. Mae llawer o fyrrdau iechyd nad ydynt yn ariannu dim gwasanaethau seicoleg i oedolion ac mewn rhai byrrdau iechyd nid oes gwasanaethau seicoleg i blant ychwaith. Er enghraifft, er y nodwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn adolygiadau cymheiriaid fel 'difrifol', nid oes ganddo wasanaethau seicoleg i blant o hyd. Seicoleg yw'r brif flaenoriaeth o fewn y grŵp cyfeirio clefion, felly ar ran clefion hefyd, gofynnwn i Aelodau o'r Senedd wthio am arian ar gyfer y gwasanaeth hwn.

JB Diolch i WG am ei chyfraniad. Bydd hwn yn fater y byddwn yn parhau i feddwl amdano fel grŵp. Argymhellwyd i'r aelodau fod hyn yn rhywbeth y gallem weithredu arno.

DW Nododd ei fod yn ymddeol, a dyma ei Grŵp Trawsbleidiol olaf. Rydym yn gwybod fod hyn yn ofal iechyd darbodus ar waith, pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwasanaeth arbed costau enfawr hwn ledled Cymru? Mae'n arbed arian a thrallod.

JB Diolchodd i DW am ei holl waith a'i gyfraniadau drwy Diabetes UK Cymru.

JJ Ategododd ddymuniadau da i DW ar ei ymddeoliad.

Mae dau beth yr hoffai Diabetes UK Cymru i Aelodau o'r Senedd eu codi naill ai yn y Senedd neu i'r gweinidog:

- Cynnydd mewn swyddi hyfforddi ar gyfer seicolegwyr clinigol yng Nghymru.
- Cydnabod y gwasanaeth y mae RS wedi'i sefydlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel y safon a ddylai fod ar gael ledled Cymru.

JB Yn seiliedig ar gyflwyniad RS, a fyddai aelodau'n hapus i ysgrifennu at y gweinidog i'w holi ynghylch seicoleg a'i gwahodd i'r Grŵp Trawsbleidiol nesaf lle gall siarad am ei chynlluniau yn y maes hwn a chlywed hefyd gan RS a seicolegwyr eraill.

Yn olaf, gyda Phwyllgor Iechyd newydd, bydd yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer ymchwiliadau. Efallai y gallai aelodau neu Diabetes UK godi hyn fel eitem ar yr agenda gan y bydd y gweithlu yn fater y bydd am ymchwilio iddo. A yw'r aelodau'n hapus gyda'r cynllun gweithredu hwnnw?

*Cytunodd y cyfarfod â'r cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.*

RD Yng nghyd-destun codi hyn gyda byrddau iechyd nad ydynt yn cynnig y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd, a all Diabetes UK ddrafftio llythyr i aelodau ei anfon at eu byrddau iechyd ar y mater? Dymunodd ymddeoliad hapus i DW.

JJ Wrth gwrs. Byddaf yn gwneud hyn cyn y cyfarfod nesaf ar y cyd ag RS.

JB Symudodd i'r eitem olaf ar yr agenda ar gefnogaeth i blant â diabetes math 1 mewn ysgolion.

JJ Yn 2017 gweithiodd Diabetes UK gyda Darren Millar AS ac eraill, gan gynnwys y Rhwydwaith Plant, i ddrafftio gwelliant i'r Bil ADY. Ei ddiben oedd creu un fframwaith unedig i gefnogi plant mewn ysgolion, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na'r cyflwr neu'r rheswm dros y gefnogaeth yn yr ysgol.

Gan gydnabod bod pobl â diabetes yn wynebu tua 180 o benderfyniadau risg uchel ychwanegol y dydd, y bwloch cyrhaeddiad rhwng y rhai â diabetes a'r rhai heb mewn lleoliadau addysgol, ac arwyddion neu symptomau hypoglycemia gan gynnwys blinder, golwg aneglur, dryswch a blinder, sy'n golygu bod gan ddigwyddiadau y potensial i gael effaith fawr ar allu dysgu, roeddem yn teimlo y dylai mynediad at gefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol fod yn agored i'r rheini sydd â chyflyrau meddygol, gan gynnwys diabetes math 1.

Roeddem wrth ein boddau o weld cefnogaeth i'r gwelliant hwn gan gynrychiolwyr ledled y Senedd, ac iddo gael ei gefnogi yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y gwaith craffu.

Drwy fabwysiadu'r gwelliant hwn, roeddem yn teimlo ein bod wedi llwyddo i alluogi'r oddeutu 1,400 o blant a phobl ifanc sydd â diabetes math 1 yng Nghymru a allai fod angen cefnogaeth mewn amgylchedd dysgu i gael mynediad at ADY.

Fodd bynnag, yn ddiweddar clywsom y cafodd Arweinwyr Clinigol Addysg Dynodedig ar gyfer pob bwrdd iechyd (rôl a grëwyd gan y Ddeddf) wybod na fyddai plant â math 1 yn gymwys i gael cefnogaeth o dan ADY. Mewn cyfarfod diweddar â Llywodraeth Cymru, cefais i a Dr Rob French o Brifysgol Caerdydd wybod na allai'r gweision sifil weld unrhyw achos lle byddai plentyn â math 1 yn gymwys i gael cefnogaeth o dan ADY.

Roedd hyn yn siom wirioneddol, ac ers hynny rydym wedi clywed yn anecdotaidd am amgylcheddau dysgu a oedd wedi cynllunio cefnogaeth i blant â math 1 gan dybio y byddent yn gymwys i gael ADY, sydd bellach yn wynebu prinder cyllid yn eu hystafelloedd dosbarth.

Teimlwn fod hyn yn mynd yn groes i ysbryd y ddeddfwriaeth, sef creu system unedig o gefnogaeth i ddysgwyr sy'n seiliedig ar asesu angen unigol.

Felly, ar ôl siarad â'r Gweinidog Addysg, mae wedi gofyn inni ysgrifennu ato'n ffurfiol ar y mater hwn, a byddem yn croesawu eich cefnogaeth ar y mater hwn.

JB Diolchodd i JJ am godi'r mater hwn, cytunwyd ag aelodau eraill y byddem yn cefnogi llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol ar hyn. Gofynnodd a oedd gan yr aelodau unrhyw fusnes arall i'w godi (ni chodwyd dim). Diolch i bawb a oedd yn bresennol am ymuno.

Daeth y cyfarfod i ben.

